Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Adroddiad drafft atodol ar gydnabyddiaeth ariannol

Awdurdodau Tân ac Achub

cdffc.llyw.cymru
cydnabyddiaeth@cdffc.llyw.cymru

# Cynnwys

Rhagair ........ 3
Cefndir ........ 4
Tabl 1: Taliadau i aelodau ATA 2026-27 ........ 4
Ystyriaethau ........ 5
Tabl 2: Cyfraddau cydnabyddiaeth ariannol cyrff cyhoeddus Llywodraeth Cymru ........ 6
Tabl 3: Sgorau bandiau Llywodraeth Cymru ........ 7
Penderfyniad drafft ........ 8
Tabl 4: Cyfraddau arfaethedig ar gyfer aelodau ATA ........ 8
Ymgynghoriad ........ 9

Mae’r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
This document is available in English.
Cyfieithwyd y ddogfen hon i’r Gymraeg gan Trosol.

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
4ydd Llawr
Adeilad Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

# Rhagair

Mae'r adroddiad atodol drafft hwn yn nodi dull arfaethedig y Comisiwn o dalu aelodau Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru, wrth i'r cyrff hynny symud i drefniadau llywodraethu newydd. Bydd y newidiadau hyn, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, yn sefydlu byrddau llai ag arddull weithredol, yn cynnwys un cynghorydd gweithredol o bob awdurdod lleol cyfansoddol, ynghyd â lleiafrif o aelodau annibynnol a benodir trwy gystadleuaeth gyhoeddus.

Wrth gyflwyno'r cynigion hyn, mae'r Comisiwn wedi ystyried yn ofalus y cyfrifoldebau sylweddol a fydd yn gysylltiedig â'r rolau hyn a'r angen am fframwaith cydnabyddiaeth ariannol sy'n glir, yn gymesur ac yn gallu cael ei gymhwyso'n gyson ar draws y tri Awdurdod Tân ac Achub.

Mae'r adroddiad yn cynnig y dylai rolau aelodau yn yr Awdurdodau Tân ac Achub gyd-fynd â chyfraddau cyrff cyhoeddus Band 3 Llywodraeth Cymru, gyda chydnabyddiaeth ariannol yn daladwy'n ddyddiol a chyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod a fesul awr, lle bo hynny'n briodol. Mae hefyd yn cynnig y dylai cadeiryddion gael cyfradd cadeirydd Band 3, ac y dylai dirprwy gadeiryddion a chadeiryddion pwyllgorau gael y gyfradd gyfatebol ar gyfer dirprwy gadeiryddion.

Bwriad y trefniadau hyn yw cefnogi gweithrediad y model llywodraethu newydd yn ne Cymru yn y flwyddyn gyfredol, ac yng nghanolbarth a gorllewin Cymru, a gogledd Cymru o fis Mai 2027 ymlaen. Nawr, mae'r Comisiwn yn gwahodd safbwyntiau gan Awdurdodau Tân ac Achub, prif gynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a phartïon eraill â buddiant cyn gwneud y penderfyniadau terfynol. Rwy'n annog pawb sydd â diddordeb yn y trefniadau hyn i ystyried y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ac ymateb i'r ymgynghoriad.

Karen Jones
Cadeirydd

# Cefndir

1. Yn dilyn problemau a nodwyd yn y modd y caiff Awdurdodau Tân ac Achub (ATA) yng Nghymru eu llywodraethu, mae Llywodraeth Cymru wedi deddfu i newid sut caiff y cyrff hanfodol hyn eu rhedeg.
2. Yn rhan o hyn, mae cyfansoddiad eu byrddau'n cael ei newid. Ar hyn o bryd, mae ganddynt rhwng 24 a 28 o aelodau, sy'n cael eu henwebu gan yr awdurdodau lleol yn eu hardal. Bydd hyn yn newid i un aelod o bob awdurdod lleol yn ardal yr ATA, a lleiafrif o aelodau annibynnol, a fydd yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru trwy gystadleuaeth deg ac agored. Rhaid i aelodau'r awdurdod lleol fod yn gynghorwyr gweithredol, hynny yw arweinydd cyngor, dirprwy arweinydd neu aelod cabinet. Deddfwyd y newidiadau gan Orchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol ac Amrywio Cynlluniau Cyfuno) (Cymru) 2026[1].
3. Bydd rôl aelodau ATAau yn newid. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydweithio â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i greu disgrifiadau rôl newydd ar gyfer rolau aelodau.
4. Yr awdurdod cyntaf i symud i'r model hwn fydd Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn ddiweddarach eleni. Bydd Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn symud i'r model hwn ym mis Mai 2027.
5. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru benderfynu ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau o fewn y trefniadau hyn. Mae'r adroddiad atodol drafft hwn yn nodi ein penderfyniadau arfaethedig ac yn gwahodd sylwadau ar y rhain gan yr ATAau, CLlLC a phartïon eraill â buddiant.
6. Ffurfiwyd y tri ATA yng Nghymru; Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru, a De Cymru yn rhan o ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996. Ar hyn o bryd, mae byrddau ATAau yn cynnwys aelodau etholedig sy'n cael eu henwebu gan y prif gynghorau yn ardal pob gwasanaeth tân ac achub. Mae cydnabyddiaeth ariannol aelodau'n tybio y byddant yn gweithio am 22 diwrnod y flwyddyn ac, ar gyfer aelodau cyffredin, mae wedi'i chysylltu â chydnabyddiaeth ariannol prif gynghorwyr cyffredin.
7. Ar hyn o bryd, mae cydnabyddiaeth ariannol cadeiryddion yr ATAau wedi'i chysylltu â chyflog uwch Band 3 prif gyngor. Mae dirprwy gadeiryddion, cadeiryddion pwyllgorau ac uwch swyddi eraill â thâl wedi'u cysylltu â chyflog Band 5. Mae manylion llawn am lefelau cydnabyddiaeth ariannol aelodau ATAau ar gyfer 2026-27 wedi'u nodi yn Nhabl 1 isod. Penderfynwyd ar y cyfraddau hyn yn Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026-27 y Comisiwn[2].

## Tabl 1: Taliadau i aelodau ATA 2026-27

| ATAau | Swm |
|---|---|
| Cyflog sylfaenol aelod cyffredin | £2,968 |
| Cadeirydd | £13,490 |
| Dirprwy gadeirydd (pan benodir un) | £7,177 |
| Cadeirydd pwyllgor neu uwch swydd arall | £7,177 |

[1] Gorchymyn Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol ac Amrywio Cynlluniau Cyfuno) (Cymru) 2026
[2] Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2026-27 | CFfDC

## Ystyriaethau

8. Ystyriom nifer o ffynonellau tystiolaeth wrth wneud ein penderfyniad drafft.
    a. Briff ar ddiwygio'r ATAau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.
    b. Disgrifiadau rôl ar gyfer aelodau'r ATAau diwygiedig, a luniwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
    c. Cyfraddau a methodoleg cyflog cyrff cyhoeddus Llywodraeth Cymru.
    ch. Disgrifiad o rolau aelodau Bwrdd Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban, gan gynnwys cydnabyddiaeth ariannol.
9. Bydd yr ATAau ad-drefnedig yn fyrddau gweithredol, a fydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch gweithredu a llywodraethu gwasanaethau tân ac achub ar draws ardal gyfan yr ATA. Nid yw aelodau awdurdodau lleol yno i gynrychioli buddiannau eu hardaloedd awdurdod lleol. Disgwylir iddynt gyflawni'r un rôl yn yr un modd ag aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru. Rydym o'r farn ei bod yn briodol i'r ddau gael eu talu yn yr un ffordd. Mae hyn yn wahanol i'r dull a ddefnyddir ar gyfer rolau eraill y mae aelodau gweithredol awdurdodau lleol yn eistedd arnynt, ond teimlwn fod y sefyllfa ar gyfer ATAau yn ddigon gwahanol i gyrff eraill, lle mae aelodau gweithredol awdurdodau lleol fel arfer yn eistedd arnynt fel cynrychiolwyr eu hawdurdod lleol.
10. Nid oes gan rannau eraill o'r Deyrnas Unedig yr un trefniadau â Chymru, felly mae'n anodd eu cymharu'n uniongyrchol. Mae gan Loegr nifer o awdurdodau tân ac achub sydd wedi'u seilio ar siroedd, y mae eu haelodau'n enwebeion o'r awdurdod lleol. Mae gan Ogledd Iwerddon a'r Alban un bwrdd yr un. Mae gan Gymru dri awdurdod tân ac achub rhanbarthol.
11. Ystyriom ddisgrifiad rôl a chydnabyddiaeth ariannol aelod o Fwrdd Gwasanaeth Tân ac Achub yr Alban yn erbyn disgrifiadau rôl aelodau yng Nghymru. Er bod rhai gwahaniaethau, mae llawer o nodweddion tebyg. Caiff aelodau yn yr Alban eu talu £321.87 y diwrnod, ynghyd â threuliau.
12. Mae'r rolau yng Nghymru a'r Alban yn rhannu'r themâu canlynol:
    a. arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol;
    b. llywodraethu, sicrwydd a chraffu;
    c. stiwardiaeth ariannol;
    ch. cydraddoldeb, cynhwysiant a safonau moesegol;
    d. atebolrwydd cyhoeddus ac ymgysylltu â rhanddeiliaid; ac
    dd. ymrwymiad i hyfforddiant a datblygiad.
13. Maent yn wahanol o ran eu:
    a. model llywodraethu – mae Cymru'n defnyddio model rhanbarthol, gyda mwyafrif yr aelodau'n uwch aelodau awdurdodau lleol, a lleiafrif yr aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru;
    b. prosesau penodi a dethol – bydd Cymru'n defnyddio cymysgedd o enwebeion o blith aelodau gweithredol awdurdodau lleol a phenodiadau gan Lywodraeth Cymru, yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Alban yn defnyddio proses gystadleuol ar gyfer pob aelod, gyda phenodiadau'n cael eu gwneud gan Lywodraeth yr Alban;
    c. cwmpas ac ehangder rolau – mae CLILC a Llywodraeth Cymru wedi llunio ystod o ddisgrifiadau rôl sy'n cwmpasu'r ystod o rolau a chyfrifoldebau, tra bod enghraifft yr Alban yn rôl aelod bwrdd unedig; ac
    ch. ymrwymiad amser – disgwylir i aelodau Bwrdd ATA yr Alban wasanaethu am bum niwrnod y mis, ar gyfartaledd, am gyfnod penodol o bedair blynedd. Nid yw ATAau yng Nghymru wedi penderfynu ar eu hymrwymiadau amser hyd yn hyn, a chaiff cyfnod y swydd ei bennu gan Lywodraeth Cymru.

14. Mae Llywodraeth Cymru yn pennu'r gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer nifer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Caiff y rhain eu pennu gan gyfeirio at nifer o ffactorau, ac maent yn grwpio cyrff yn bum band wedi'u seilio ar eu cyllideb, nifer y staff, cymhlethdod eu gwaith a lefel y risg a'r amlygiad ar gyfer pob un. Caiff eu cyfraddau cyfredol eu nodi yn Nhabl 2 isod.
15. Nid yw dyrannu cyrff i fandiau yn ymarfer manwl gywir. Mae cynllun Llywodraeth Cymru wedi'i lunio i fod mor syml, cymesur a gwrthrychol â phosibl. Er mwyn osgoi cymhlethdod diangen, caiff cyrff eu dyrannu i fandiau gan ddefnyddio sgorau o 1 i 5 yn erbyn pedwar maen prawf allweddol, fel y nodir yn Nhabl 3 isod.

## Tabl 2: Cyfraddau cydnabyddiaeth ariannol cyrff cyhoeddus Llywodraeth Cymru

| | Sgôr o Dabl 3 isod | Rôl | Cyfraddau Dyddiol |
|---|---|---|---:|
| **Band 5** | 17 | Cadeirydd | £494 |
| | | Dirprwy Gadeirydd | £435 |
| | | Aelod Bwrdd | £378 |
| **Band 4** | 14-16 | Cadeirydd | £407 |
| | | Dirprwy Gadeirydd | £378 |
| | | Aelod Bwrdd | £348 |
| **Band 3** | 9-13 | Cadeirydd | £348 |
| | | Dirprwy Gadeirydd | £322 |
| | | Aelod Bwrdd | £292 |
| **Band 2** | 6-8 | Cadeirydd | £265 |
| | | Dirprwy Gadeirydd | £234 |
| | | Aelod Bwrdd | £205 |
| **Band 1** | 4-5 | Cadeirydd | £118 |
| | | Dirprwy Gadeirydd | £108 |
| | | Aelod Bwrdd | £95 |

## Tabl 3: Sgorau bandiau Llywodraeth Cymru

| Maen prawf | Sgôr 1 | Sgôr 2 | Sgôr 3 | Sgôr 4 | Sgôr 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant gros** | Cyllideb o dan £5m | Cyllideb rhwng £5m a £75m | Cyllideb rhwng 75m a £150m | Cyllideb dros £150m | Ddim yn berthnasol |
| **Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)** | Llai na 50 | 50-99 | 100-499 | 500 neu fwy | Ddim yn berthnasol |
| **Cymhlethdod y rôl** | Corff cynghori, un dasg. | Corff cynghori mwy cymhleth neu gorff gweithredol ag un dasg. | Corff gweithredol; gwaith cymhleth; rhywfaint o sensitifrwydd. | Corff gweithredol; gwaith cymhleth iawn; materion anodd neu sensitif yn aml. | Corff gweithredol; gwaith cymhleth iawn gyda dimensiwn rhyngwladol, sy'n cynnwys ystod eang o bartneriaid, yn enwedig y sector preifat; materion anodd neu sensitif yn aml. |
| **Risg/amlygiad** | Isel | Canolig | Uchel | Uchel iawn | Ddim yn berthnasol |

16. Casglom wybodaeth am gyllidebau a niferoedd staff ATAau o wefan StatsCymru[3]. Ein hasesiad ni yw bod pob ATA yn sgorio 3 ar gyfer gwariant gros, 4 ar gyfer nifer y staff, 3 ar gyfer cymhlethdod y rôl a 3 ar gyfer risg/amlygiad, sy'n rhoi cyfanswm o 13 iddynt, a fyddai'n eu rhoi ar frig Band 3 ar gynllun Llywodraeth Cymru.

[3] Tân: Personél (cyfrif pennau) yn ôl math cyflogaeth a'r flwyddyn ariannol | StatsCymru
Gwariant alldro refeniw yn ôl awdurdod a gwasanaeth | StatsCymru
Gwariant alldro cyfalaf yn ôl awdurdod a gwasanaeth | StatsCymru

## Penderfyniad drafft

17. Ar ôl ystyried y ffactorau hyn, rydym wedi penderfynu bod cyfradd cyrff cyhoeddus Band 3 Llywodraeth Cymru ar lefel briodol ar gyfer aelodau byrddau ATAau yng Nghymru.
18. Roedd rhaid i ni benderfynu a ddylid ei thalu fel cyfradd ddyddiol neu gyfradd flynyddol. Rhoddir ymreolaeth i'r ATAau benderfynu pa mor aml y maent yn cyfarfod ac at ba ddibenion. Gallai hyn arwain at rywfaint o amrywiad rhwng y tri ATA, sy'n ei gwneud hi'n anodd pennu cyfradd flynyddol, felly rydym wedi dod i'r casgliad mai cyfradd ddyddiol sydd fwyaf priodol.
19. Bydd gan ATAau ymreolaeth hefyd i sefydlu pwyllgorau o aelodau sy'n adrodd i'w bwrdd. Dylid talu cadeiryddion y pwyllgorau hynny ar yr un gyfradd â dirprwy gadeiryddion y bwrdd.
20. Rydym yn cydnabod na fydd yr holl waith a wneir gan aelodau ATA yn cyfateb i ddiwrnod llawn o waith ar y tro. Felly, rydym hefyd yn cynnig, yn ogystal â'r gyfradd ddyddiol, bod gan ATAau yr hyblygrwydd i dalu hanner hyn am waith hyd at 4 awr mewn unrhyw ddiwrnod, ynghyd â chyfradd fesul awr, mewn ffordd debyg i'r ffordd rydym yn pennu cyfraddau ar gyfer rolau eraill sydd o fewn ein cylch gwaith.
21. Mae'r cyfraddau rydym yn eu cynnig wedi'u nodi yn Nhabl 4.

### Tabl 4: Cyfraddau arfaethedig ar gyfer aelodau ATA

| | **Cyfradd ddyddiol** | **Cyfradd hyd at 4 awr** | **Cyfradd fesul awr** |
|---|---:|---:|---:|
| Cadeirydd | £348 | £174 | £43.50 |
| Dirprwy Gadeirydd neu Gadeirydd Pwyllgor | £322 | £161 | £40.25 |
| Aelod Bwrdd | £292 | £146 | £36.50 |

22. Rydym yn bwriadu adolygu'r cyfraddau hyn yn flynyddol yn yr un modd â chydnabyddiaeth ariannol arall sydd o fewn ein cylch gwaith, yn rhan o'n hadroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth ariannol.

# Ymgynghoriad

Hoffem ofyn i ATAau, prif gynghorau, CLlLC a phartïon eraill â buddiant eu barn ar ein penderfyniadau drafft.

Rydym wedi cyhoeddi ffurflen ar-lein i gasglu eich barn ar bob cyfradd. Mae'n cynnwys cwestiwn testun rhydd ar y diwedd i gasglu unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech i ni eu hystyried.

Penderfynu ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau bwrdd ATA – Llenwi'r ffurflen

Dylech ddarparu eich ymateb erbyn 14 Awst 2026.

Byddwn yn ystyried yr holl ymatebion ac yn cyhoeddi ein hadroddiad atodol terfynol cyn pen 12 wythnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad atodol drafft hwn.

Am ragor o wybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol a'r broses benderfynu, ewch i dudalen we'r Comisiwn: www.cdffc.llyw.cymru/cydnabyddiaeth-ariannol